

[English here](#)

Llywodraeth Cymru – Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Yr Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Cyllido Deialog Cymunedol – canllawiau i ymgeiswyr

Paratowyd y canllawiau hyn er mwyn helpu sefydliadau i sicrhau eu bod yn cynnwys digon o wybodaeth sy'n ofynnol i asesu eu cais am arian i gynnal deialog gymunedol ar bynciau amgylcheddol, newid hinsawdd neu faterion gwledig.

Cefndir

Cafodd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2022 ac mae'n egluro cynlluniau ar gyfer gweithio tuag at greu Cymru wrth-hiliol erbyn 2030. Mae'r Cynllun Gweithredu'n rhoi gwybodaeth am beth mae gwrth-hiliaeth yn ei olygu, pam mai Cynllun yw hwn ac nid strategaeth, a'r themâu polisi y mae'r nodau a'r camau gweithredu'n canolbwyntio arnynt. [Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol | LLYW.CYMRU](#)

Roedd fersiwn gyntaf y Cynllun Gweithredu'n canolbwyntio ar 11 thema polisi sy'n sail i'r nodau a gweithredoedd lefel uchel.

O fewn y themâu polisi hyn mae'r Cynllun Gweithredu'n canolbwyntio ar y newidiadau yr hoffem eu gwneud ar y cyd i brofiadau pobl o hiliaeth mewn chwe agwedd ar eu bywydau.

- Eu profiad o hiliaeth mewn bywyd pob dydd;
- Eu profiad o hiliaeth wrth ddefnyddio gwasanaethau;
- Eu profiad o hiliaeth wrth fod yn rhan o'r gweithle;
- Eu profiad o hiliaeth wrth gael swyddi a chyfleoedd.
- Eu profiad pan nad oes ganddynt fodelau rôl gweladwy mewn swyddi dylanwadol.

- Eu profiad o hiliaeth fel ffoadur neu geisiwr lloches.

Pwrpas y Cynllun Gweithredu yw gwneud newid sylweddol i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol gyda'n gilydd.

Datblygwyd y Cynllun Gweithredu ar y cyd â chasgliad eang o randdeiliaid gan gynnwys Undebau Llafur, partneriaid y sectorau preifat a chyhoeddus a'r trydydd sector a sefydliadau cymunedol, aelodau a mentoriaid. Ei nod yw bod yn Gynllun cadarn a chroestoriadol sy'n adlewyrchu profiadau byw ei gyd-grewyr.

Y Nod

Roedd fersiwn gyntaf y Cynllun Gweithredu'n cynnwys ymrwymiad i ddatblygu cam gweithredu cynhwysfawr mewn perthynas â'r Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Mae'r cyllid hwn yn rhan o waith ehangach i ddilyn peth o'r broses wreiddiol y cynllun gwrth-hiliaeth i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer Adrannau'r Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn Llywodraeth Cymru, gan ddefnyddio'r un weledigaeth, diben a gwerthoedd â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Yn y darn cyntaf hwn o waith rydym yn ceisio cael dealltwriaeth o brofiad pobl ethnig leiafrifol o hiliaeth ym maes Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Bwyd. Bydd lleisiau profiad byw cymunedau ethnig yn sail i'r camau a nodir yn y cynlluniau adrannol cyntaf.

Rhagwelir y bydd canlyniadau'r gwaith ynghyd â'r nodau lefel uchel a'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno'n cael eu cynnwys yn y Cynllun presennol.

Mae'r Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn cwmpasu casgliad amrywiol iawn o feysydd polisi (o ran gwybodaeth gefndir, mae disgrifiad llawn ar gael ar ein gwefan [Yr amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd | Pwnc | LLYW. CYMRU](#), [Ffermio a chefn gwlad | Pwnc | LLYW. CYMRU](#) ac [Y Môr a Physgodfeydd | Pwnc | LLYW. CYMRU](#)). Er mwyn cychwyn y ddeialog gyda chymunedau, bwriedir canolbwyntio ar feysydd o'r portffolios polisi a allai gael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar unwaith. Mae Llywodraeth Cymru'n ceisio deall sut a lle mae pobl yn profi hiliaeth yn y meysydd hyn. Ysbrydoliaeth, nid pethau pendant, yw'r rhain ac rydym yn gallu ymgorffori meysydd eraill os ydyn nhw'n dod i'r amlwg fel blaenoriaethau i bobl. Nid yw hynny'n golygu y dylid cyfyngu sgysiaid i'r meysydd hyn:

1. Hamdden – mannau gwyrdd a mynediad i gefn gwlad a mannau arfordirol.
2. Gweithleoedd, gwirfoddoli ac ymgyrchu - gweithio ac ymwneud â newid hinsawdd, sectorau'r amgylchedd
3. Yr amgylchedd lleol – problemau amgylcheddol cymunedol fel tipio anghyfreithlon, llygredd aer, ailgylchu ac ailddefnyddio.

4. Problemau newid hinsawdd – rôl cymdeithas wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd – cefnogi gweithredu ar lefel unigol a chymunedol. Newid cyfiawn i economi sero net ac addasu i newid hinsawdd.
5. Argyfwng bioamrywiaeth – barn a blaenoriaethau ynghylch colli bioamrywiaeth yng Nghymru a thramor.
6. Bwyd a diwylliannau bwyd – profiadau o hiliaeth wrth brynu bwyd i'w fwyta gartref a thu allan i'r cartref, gwastraff bwyd ac ati.
7. Tyfu eich bwyd eich hun am resymau cymunedol, iechyd, deietegol, amgylcheddol neu newid hinsawdd. Mynediad i gynlluniau tyfu cymunedol, gerddi, mynediad at randiroedd neu erddi cymunedol.
8. Arweinyddiaeth, cynrychiolaeth a rôl fodelau ar Fyrddau a fforymau gwneud penderfyniadau yn y tri sector.

Mae rhagor o fanylion am gwmpas y meysydd thematig a syniadau ac awgrymiadau ar gyfer trafodaeth yn [Atodiad A](#).

Ynglŷn â'r arian hwn

Cynigir yr arian hwn i dalu costau cynnal deialog neu sesiynau trafod gyda chymunedau ethnig leiafrifol a grwpiau cymunedol am y pethau y mae angen mynd i'r afael â nhw yn y nodau a'r camau gweithredu ar gyfer Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig. Y nod yw cefnogi llawer o sgysiau gydag amrywiaeth eang o bobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar hyd a lled Cymru (gan gynnwys Sipsiwn, Roma a Theithwyr, cymunedau mudwyr a ffoaduriaid). Bydd y deialogau hyn yn llywio'r ddealltwriaeth o'r mathau o hiliaeth a brofir gan bobl ethnig leiafrifol yn y meysydd hyn o'u bywydau a'r hyn sydd angen newid.

Mae'r arian ar gael i'r trydydd sector, grwpiau cymunedol neu sefydliadau sy'n arbenigo mewn helpu, ymgysylltu neu weithio gyda chymunedau neu sefydliadau ethnig leiafrifol sy'n gweithio yn y maes yr amgylchedd, newid hinsawdd a bwyd. Ein nod yw cyrraedd pob rhan o Gymru trwy'r gyfres o geisiadau llwyddiannus. Does dim rhaid i geisiadau unigol fod ar gyfer Cymru gyfan, gallant fod ar gyfer ardal neu gymuned benodol.

Gellir cyflwyno digwyddiadau deialog trwy amrywiaeth o ieithoedd. Gall sgysiau ymwneud â themâu polisi penodol, er enghraifft, canolbwyntio ar fynediad i barciau cyhoeddus neu ganolbwyntio ar grŵp a maes polisi penodol er enghraifft, merched Mwslimaidd yn defnyddio parciau cyhoeddus yng Nghaerdydd.

Bydd croeso arbennig i geisiadau sydd â ffocws penodol ar y grwpiau canlynol a restrir isod. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr ac mae croeso i geisiadau sy'n gysylltiedig â chymunedau eraill:

- Merched Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol
- Pobl a chymunedau anabl Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol
- Plant a phobl ifanc Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol

- Grwpiau ymgyrchu Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ym maes yr Amgylchedd, Newid hinsawdd neu Fynediad awyr agored.
- Mamau beichiog
- Pobl hŷn Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol
- Pobl ifanc a myfyrwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol
- Pobl a chymunedau LHDT+ Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol

Bydd Llywodraeth Cymru'n darparu contractau gwerth hyd at £4,999 (heb gynnwys TAW) i sefydliadau a grwpiau cymunedol cymwys. Byddwn yn ystyried ceisiadau unigol ac ar y cyd ar gyfer y contractau hyn.

Rhaid i weithgaredd a gyllidir ddigwydd yng Nghymru, ac rydym yn croesawu syniadau creadigol ar weithgareddau ymgysylltu ar-lein, wyneb yn wyneb neu unrhyw fformat arall. Byddwch yn greadigol.

Meini Prawf Ariannu

Rhaid i'ch ceisiadau unigol neu ar y cyd fodloni'r meini prawf canlynol:

	Meini prawf	Pwysoliad
1	Dangos eich profiad a'ch gallu i ymgysylltu a gwrandao ar gymunedau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, gan gynnwys rhai â phrofiadau croestoriadol yn erbyn y themâu polisi a amlinellir.	20%
2	Rhaid i'ch cais amlinellu sut fyddwch chi'n ymgysylltu â Chymunedau Ethnig Leiafrifol a pha brofiad blaenorol o waith ymgysylltu cymunedol sydd gennych chi.	30%
3	Rhaid i chi amlinellu beth fydd eich gweithgaredd Ymgysylltu'n canolbwyntio arno. Rydym yn awgrymu ei fod yn cyd-fynd â'n cwestiynau ymgysylltu, sydd yn Atodiad A. Byddwn yn ystyried cynigion sy'n ehangach na'r cwestiynau ymgysylltu ond rhaid iddyn nhw ddangos sut mae'n cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r themâu polisi. Os ydych chi'n dewis ymdrin â thema polisi, rhaid i'ch cais nodi pa thema polisi fyddwch chi'n ei thrafod a'r rhesymau am hynny. Er enghraifft, os ydych chi'n dewis trafod materion bwyd, rhaid i chi roi rhesymau dros ddewis y thema polisi hon.	30%
4	Y gallu i lunio adroddiad cryno o'ch sesiwn ddeialog, gan gynnwys pwy rydych chi wedi ymgysylltu â nhw, pryd a lle. Dylech gynnwys digon o ddyfyniadau i ddangos eich canfyddiadau. Dylai'ch cais ddangos eich profiad blaenorol o adrodd ar safbwyntiau cymunedau.	20%

Bydd eich cais yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf hyn ar raddfa o 0-100. Mae tabl o'r broses sgorio yn [Atodiad B](#). Dylai'ch cynnig gynnwys yr holl feini prawf uchod, nodir pwysoliad neu bwysigrwydd yr adrannau yn eich cynnig gan y canrannau a roddir yn y tabl uchod.

Gwybodaeth ofynnol gan ymgeiswyr

Ysgrifennwch gynnig, **hyd at ddwy ochr A4 (ni fyddwn yn asesu unrhyw gais sydd dros ddwy ochr o hyd)**, sy'n amlinellu sut fyddwch chi'n defnyddio'r arian i drafod y materion a amlinellir gyda'ch cymuned neu grwpiau dewisol, gan ystyried y meini prawf uchod. Dylai'r cynnig gynnwys adran sy'n amlinellu'r amser a'r adnoddau i ysgrifennu, cofnodi neu recordio'r sgysiau er mwyn rhoi adborth eich prosiect i ni.

Yn eich dwy dudalen, rhwch ddadansoddiad o'r costau a'r adnoddau cysylltiedig y bydd eu hangen arnoch ar gyfer y gweithgaredd y manylir arno yn eich cynnig a darparwch linell amser ar gyfer y gweithgaredd. Bydd angen adborth o'ch deialog/trafodaeth neu'r sesiwn/sesiynau sgwsio erbyn 20 Medi 2023.

Hefyd, nodwch pa un o'r pedwar categori daearyddol canlynol a gwmpesir gan eich gweithgaredd (noder – rydym yn rhestru awdurdodau lleol er mwyn egluro ffiniau rhanbarthol, does dim angen i geisiadau ddangos gweithgaredd penodol ym mhob awdurdod lleol yn y rhanbarth hwnnw).

- Cymru Gyfan
- Y Gogledd (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, Wrecsam)
- Y Canolbarth a'r Gorllewin – Sir Gâr, Ceredigion, Sir Benfro, Powys)
- Y De (Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Abertawe, Caerdydd, Merthyr, Sir Fynwy, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen, Bro Morgannwg)

Cymorth Ychwanegol

Bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal sesiwn friffio ar-lein ar 2 – 3pm 7 Mehefin 2023 drwy Teams, i gynigwyr sydd â diddordeb yn ystod y broses ymgeisio. Os yw cynigwyr am ymuno â'r sesiwn hon, e-bostiwch environmentalevidence@llyw.cymru i dderbyn cyfarwyddiadau ymuno.

Trefniadau ar gyfer cyflwyno ceisiadau, gwerthuso a hysbysu

Dylai pob cais gael ei gyflwyno trwy e-bost i environmentalevidence@llyw.cymru erbyn **2pm ar 21 Mehefin 2023** fan bellaf.

Y bwriad yw rhoi gwybod i sefydliadau am ganlyniad eu cais erbyn 18 Gorfennaf 2023.

Bydd ceisiadau'n cael eu gwerthuso gan banel asesu. Bydd y panel yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru sydd â phrofiad o'r trydydd sector a chynigion prosiect sy'n ymwneud â pholisi cydraddoldeb ac o leiaf un gweithiwr annibynnol Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol sydd â phrofiad proffesiynol gyda gwaith o'r math hwn (ni fyddant yn gysylltiedig ag unrhyw

gais). Bydd y panel yn asesu a sgorio ceisiadau yn erbyn y meini prawf a nodir yn y canllawiau hyn.

Bydd ceisiadau'n cael eu trefnu fesul cymuned yn ogystal ag yn groestoriadol ac yn ôl thema polisi ac yn cael eu trefnu yn ôl eu sgôr panel a gytunwyd. Er mwyn sicrhau cwrdd daearyddol, bydd o leiaf un cais sy'n cwrddu pob categori daearyddol (a restrir uchod) yn cael ei ddewis ar gyfer argymhelliad.

Bydd arian yn cael ei roi i sefydliadau yn amodol i amodau a thelerau Llywodraeth Cymru. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu briffio cyn dechrau eu gweithgareddau ymgysylltu.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn am y canllawiau hyn, holwch dîm yr Uned Dystiolaeth Strategol drwy e-bostio environmentalevidence@llyw.cymru. Rydym yn hapus i ymateb i ymholiadau hyd at wythnos cyn y dyddiad cau.

Atodiad A

Meysydd ar gyfer deialog

Hamdden – mannau gwyrdd a mynediad i gefn gwlad

Mannau gwyrdd – parciau, tiroedd hamdden, gerddi, llwybrau cerdded, llwybrau glan afon, llwybrau beicio neu fannau cyhoeddus gyda glaswellt a choed neu natur.

Mae gennym ddiddordeb mewn trafodaeth am fannau gwyrdd sydd ar gael i'r gymuned. Ydyn nhw'n eu defnyddio a sut? Oes yna broblemau sy'n cyfyngu ar eu defnydd o'r man gwyrdd? Hiliol neu fel arall.

Cwestiynau trafod posib (does dim rhaid i chi ddefnyddio'r rhain).

- Oes yna fannau gwyrdd yn agos atoch chi?
- Beth yw eich barn chi am y man gwyrdd hwn?
- Yw'r man gwyrdd yn cael ei ddefnyddio gan eich cymuned, neu efallai dim ond gan rai aelodau o'ch cymuned? Er enghraifft; pobl ifanc i chwarae pêl-droed.
- Beth sy'n atal pobl rhag defnyddio'r man gwyrdd?
- Yw'r cyfleusterau a ddarperir yn diwallu anghenion pawb yn eich cymuned?

Ymweld â chefn gwlad neu lan y môr

Mae gennym ddiddordeb mewn trafodaethau am fynd i gefn gwlad neu ymweld â glan y môr. Sut mae'r grŵp yn teimlo am fynd allan i'r wlad? Os nad ydyn nhw'n mynd am dro i'r wlad neu'n ymweld â'r môr, beth sy'n eu rhwystro nhw?

Yma, rydyn ni'n golygu ymweld ag unrhyw fath o gefn gwlad, coedwigoedd, parciau cenedlaethol, cyflawni gweithgareddau awyr agored; picnic, beicio, cerdded, dringo'r bryniau, mynd i'r môr.

Cwestiynau trafod posib (does dim rhaid i chi ddefnyddio'r rhain).

- Fyddai aelodau o'ch cymuned yn ystyried ymweld â chefn gwlad neu lan y môr?
- Pa fath o ymweliadau maen nhw'n eu gwneud? Gwibdeithiau i bentrefi, neu drefi neu er mwyn cyflawni gweithgareddau?
- Ydych chi'n teimlo bod cefn gwlad (glan y môr) yn groesawgar?
- Os nad yw pobl yn ystyried ymweld â chefn gwlad (glan y môr), pam ddim?
- Beth ellid ei wneud cefn gwlad a mannau awyr agored yn fwy croesawgar i aelodau eich cymuned?

Amgylchedd Lleol – Problemau Amgylcheddol Cymunedol

Mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am bolisïau a gyflawnir gan Awdurdodau Lleol o ran amgylcheddau lleol, gan gynnwys ansawdd aer a sŵn, gwastraff ac ailgylchu, polisïau atgyweirio, ailddefnyddio ac ailgylchu, gan gynnwys caffis a hybiau atgyweirio, tipio anghyfreithlon a materion amgylchedd lleol eraill. O fewn y maes gwaith hwn, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda thair Llywodraeth arall y DU ar wahardd plastigau untro a lleihau plastig.

Beth yw'r prif bryderon i'ch cymuned o safbwynt materion amgylcheddol lleol?

Cwestiynau trafod posib (does dim rhaid i chi ddefnyddio'r rhain).

- Beth yw eich pryderon am eich amgylchedd lleol? Yw ansawdd yr aer yn wael? Tipio anghyfreithlon?
- Oes unrhyw gyfleusterau, prosiectau neu siopau ailgylchu, ailddefnyddio neu drwsio yn eich cymuned? Gallai'r rhain fod yn siopau dillad elusen neu'n siopau ail law. Yw'ch cymuned chi'n defnyddio'r siopau hyn? A fydden nhw'n defnyddio siopau trwsio? Os ddim, beth sy'n eu rhwystro nhw?
- Mae Cymru'n drydydd yn y byd am ailgylchu trefol. Yw'ch cymuned chi'n teimlo'n rhan o'r llwyddiant hwn? Beth yw eich barn chi am ailgylchu?
- Oes yna unrhyw broblemau, pryderon neu faterion diwylliannol penodol y dylai'r Llywodraeth eu hystyried mewn perthynas â gwahardd plastigau untro a lleihau plastig yn gyffredinol.
- Beth y gellid ei wneud i helpu'ch cymuned i leihau'r defnydd o blastig?

Problemau Newid Hinsawdd – rôl cymdeithas wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd – cefnogi gweithredu ar lefel unigol a chymunedol. Pontio teg ac addasu i newid hinsawdd

Mae gennym ddiddordeb mewn trafodaethau ynghylch gweithredu ar newid hinsawdd. Gallai hyn fod yn drafodaeth eang iawn. Mae materion yn ymwneud â chyfiawnder hinsawdd, yma a thramor, pontio teg – galluogi pawb i leihau eu hallyriadau carbon heb roi unrhyw un dan anfantais, yn enwedig grwpiau incwm isel. Galluogi pobl i gymryd camau unigol a chefnogi a hwyluso gweithredu cymunedol. Mae gennym ddiddordeb mewn trafodaethau hollgynhwysol am newid hinsawdd – yw hyn yn teimlo'n berthnasol? Oes yna bwyntiau diwylliannol neu gymdeithasol penodol y dylem fod yn ymwybodol ohonyn nhw.

Cwestiynau trafod posib (does dim rhaid i chi ddefnyddio'r rhain).

- Ydych chi'n teimlo bod trafodaethau newid hinsawdd yn eich cynnwys chi?
- Pa agweddau ar y drafodaeth sy'n bwysig i chi?

- Lle rydych chi'n cael gwybodaeth am newid hinsawdd? Sut mae modd gwella gwybodaeth am newid hinsawdd?
- O ble fydddech chi'n chwilio am wybodaeth?
- Mae mynd i'r afael â newid hinsawdd yn golygu bod pob un ohonom yn gwneud newidiadau bach a mawr i'n ffordd o fyw. Yw hyn yn teimlo'n berthnasol i chi a'ch ffordd o fyw?
- Cefnogi cymunedau i ddod at ei gilydd i weithredu – beth mae'ch cymuned chi'n ei wneud? Beth fyddai'n eu helpu nhw i weithredu?

Argyfwng Bioamrywiaeth – barn a blaenoriaethau ynghylch colli bioamrywiaeth yng Nghymru a thramor.

Mae gennym ddiddordeb mewn trafodaethau am yr argyfwng bioamrywiaeth. Gallai hyn fod yn sgwrs eang ynghylch bioamrywiaeth yng Nghymru neu'r DU, colli bioamrywiaeth dramor, fel coedwigoedd glaw ym Mrasil neu Affrica. Profiadau o fioamrywiaeth mewn bywyd bob dydd, yn yr ardd, neu'r parc lleol.

Cwestiynau trafod posib (does dim rhaid i chi ddefnyddio'r rhain).

- Ydych chi wedi gwyllo rhaglen ddiweddaraf David Attenborough?
- Ydych chi'n teimlo eich bod wedi'ch cynnwys yn y trafodaethau am fioamrywiaeth?
- Pa agweddau ar fioamrywiaeth sydd bwysicaf i'ch cymuned?
- Yw'r drafodaeth hon yn teimlo'n berthnasol i chi neu aelodau'ch cymuned?
- Ydych chi'n gwybod am bobl yn gweithredu? Beth maen nhw'n ei wneud?
- Beth hoffech chi wybod mwy amdano i'ch annog chi a'ch cymuned i weithredu?

Bwyd a Diwylliannau Bwyd – profiadau o hiliaeth wrth brynu bwyd yn y cartref a thu allan i'r cartref. Mynediad i gynlluniau tyfu cymunedol, gerddi, myniediad at randiroedd neu erddi cymunedol.

Mae bwyd yn agwedd bwysig ar hunaniaeth bersonol a diwylliannol. Mae gan Gymru hunaniaeth fwyd gref ond draddodiadol. Er mwyn helpu Cymru i wrthsefyll newid hinsawdd yn well, bydd angen inni dyfu mwy o'n bwyd ein hunain. Er mwyn gwneud hyn yn llwyddiannus mae angen i'r bwyd rydyn ni'n ei dyfu ddiwallu anghenion holl bobl Cymru.

Cwestiynau trafod posib (does dim rhaid i chi ddefnyddio'r rhain).

- Beth ydych chi'n ei ystyried wrth brynu bwyd?
- Ydych chi'n ystyried o ble mae'ch bwyd yn dod wrth brynu bwyd?
- Beth yw'r ffactorau pwysig sy'n dylanwadu ar eich dewisiadau bwyd? Pris. Oes yna bethau eraill y gallech chi eu hystyried os yw'r pris yn iawn? Lles anifeiliaid, organig, Tractor Coch, cynnyrch Cymru?

- Mynd allan i fwyta. Unrhyw heriau penodol i chi neu aelodau o'ch cymuned?
- Oes gennych chi ddiddordeb mewn tyfu eich bwyd eich hun?
- Oes cyfleoedd i dyfu'ch bwyd eich hun yn eich cymuned? Os oes cyfyngiadau, beth ydyn nhw?
- A fyddai aelodau'r gymuned yn ystyried gwneud cais am randir?
- A fyddai gan bobl yn eich cymuned ddiddordeb mewn prosiect tyfu cymunedol? Ydyn nhw'n gwneud hynny'n barod? Neu beth fyddai'n cyfyngu ar gymryd rhan yn y math hwn o brosiect?

Gweithleoedd, gwirfoddoli ac ymgyrchu – gweithio a chymryd rhan yn y sector newid hinsawdd a'r amgylchedd

Mae problemau amgylcheddol a newid hinsawdd yn uchel ar yr agenda gwleidyddol, mae yna nodau uchelgeisiol i geisio lliniaru newid yn yr hinsawdd a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Mae hwn yn faes cyffrous sy'n tyfu ar gyfer gyrfa, ond mae'r sector hwn gyda'r lleiaf amrywiol yn y DU, gyda dim ond 4% o'r gweithlu o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

Mae newid hinsawdd a gweithredu amgylcheddol yn cael eu llywio gan waith ymgyrchu a mudiadau gwirfoddoli, mae'r rhain yn llefydd pwysig i bobl gymryd rhan i newid pethau. Mae gweithredu amgylcheddol yn rhan bwysig o gael profiad i fynd i mewn i'r sector amgylcheddol. Ond mae'r sector hwn yn brin o amrywiaeth a lleisiau ethnig hefyd.

- Fyddech chi'n ystyried yr amgylchedd fel maes gyrfa i chi?
- Mae gan yr amgylchedd un o'r lefelau isaf o amrywiaeth fel cyflogwr. Sut allai'r sector ennyn eich diddordeb chi neu aelodau iau o'ch cymuned i ddysgu mwy ac ymuno â'r sector?

A fydddech chi neu aelodau o'ch cymuned yn ystyried dod yn aelod o elusen amgylcheddol, fel yr RSPB neu'r ymddiriedolaeth byd natur neu wrthryfel difodiant? Os ddim, pam hynny?


Arweinyddiaeth, cynrychiolaeth a rôl fodelau ar Fyrddau a fforymau gwneud penderfyniadau yn y tri sector.

Mae arweinyddiaeth a chynrychiolaeth Ethnig Leiafrifol ar fyrddau ac mewn fforymau gwneud penderfyniadau'n isel iawn yn y sectorau amgylchedd, newid hinsawdd a materion gwledig. Beth ellid ei wneud i fynd i'r afael â'r diffyg cynrychiolaeth hwn a sut allwn ni gynorthwyo'r rhai sydd â diddordeb mewn cyflawni'r rolau hyn?

Atodiad B

Amlinelliad o'r broses sgorio

Gallu	Tystiolaeth a ddarparwyd	Sgôr	Sylw
Mae'r cynigydd yn debygol o allu diwallu anghenion yr Awdurdod.	Mae tystiolaeth yn gyson, cynhwysfawr, diddorol, yn uniongyrchol berthnasol i bob agwedd ar y prosiect, wedi'i phrofi a chredadwy iawn.	100	Hyder llwyr
	Mae tystiolaeth yn ddigonol, yn gredadwy ac yn argyhoeddi.	80	Hyder
Mae risg fach na fydd y cynigydd yn gallu diwallu anghenion yr Awdurdod.	Mae mân fylchau yn y dystiolaeth, neu nid yw'n argyhoeddi i ryw raddau, diffyg hygyrddedd neu'n amherthnasol i'r prosiect.	60	Mân bryderon
Risg gymedrol na fydd y cynigydd yn gallu diwallu anghenion yr Awdurdod.	Mae bylchau cymedrol o ran tystiolaeth, nid yw'n argyhoeddi.	40	Pryderon cymedrol
Risg sylweddol na fydd y cynigydd yn gallu diwallu anghenion yr Awdurdod.	Bylchau sylweddol yn y dystiolaeth, nid yw'n argyhoeddi mewn sawl agwedd, diffyg hygyrddedd neu'n amherthnasol i'r prosiect i raddau helaeth.	20	Pryderon mawr
Ni fydd y cynigydd yn gallu diwallu anghenion yr Awdurdod.	Dim tystiolaeth, neu dystiolaeth gamarweiniol.	0	Ddim yn dderbyniol



Codi hyder yn sail
tystiolaeth ni
Building confidence in our
evidence base



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Welsh Government – Anti-Racism Action Plan Environment, Climate Change and Rural Affairs

Community Dialogue Funding Guidance Note for Applicants

This guidance has been prepared to help organisations ensure they include sufficient information required for the purposes of assessing their application for funding to host a community dialogue on environment, climate change or rural affairs subjects.

Background

The Anti-racism Wales Action Plan was published in June 2022 and lays out plans for working towards creating an anti-racist Wales by 2030. The Action Plan provides information on what anti-racism means, why it is a Plan and not a strategy and also the policy themes under which goals and actions are focus on. [Anti-racist Wales Action Plan | GOV.WALES](#)

The first iteration of the Action Plan focused on 11 policy themes under which high level goals and actions reside.

Within these policy themes the Action Plan focuses on the changes we wish to collectively make to people's experiences of racism in six aspects of their lives.

- Their experience of racism in every-day life;
- Their experience of racism when experiencing service delivery;
- Their experience in being part of the workplace;
- Their experience in gaining jobs and opportunities.

- Their experience when they lack visible role models in positions of power.
- Your experience of racism as a refugee or asylum seeker.

The purpose of the Action Plan is to collectively make a measurable difference to the lives of Black, Asian and Ethnic Minority people.

The Action Plan was developed in co-construction with a wide range of stakeholders including Trade Unions, private, public and third sector partners and community organisations, members and mentors. It aims to be a robust and intersectional Plan that is reflective of the lived experiences of its co-creators.

The Ask

In the first iteration of the Action Plan there was a commitment to develop a comprehensive action in relation to the Environment, Climate Change and Rural Affairs (E/CC/RA). This funding is part of wider work to follow some of the original Anti-racism plan process to develop an action plan for the E/CC/RA Departments in Welsh Government, using the same vision, purpose and values of the Wales Anti-racism Plan. In this first piece of work we aim to gain insight into ethnic minority people's experience of racism in the Climate Change, Environment and food. The lived experience voices of ethnic communities will form the basis for the actions identified in the first departmental plans.

It is anticipated that the results of the work along with the high level goals and agreed action plan will be integrated into the current Plan.

Environment, Climate Change and Rural Affairs cover a disparate range of policy areas (for background information, a full description can be found on our website [Environment and climate change | Topic | GOV.WALES](#) , [Farming and countryside | Topic | GOV.WALES](#) and [Marine and fisheries | Topic | GOV.WALES](#)). To start the dialogue with communities, it is proposed to focus on areas of the policy portfolios that could make an immediate positive impact to the lives of Black and Asian Ethnic Minority people. Welsh Government is seeking to understand how and where people experience racism in these areas. These are for inspiration and are not definitive and we are able to incorporate other areas if they emerge as priorities for people. That is not to say that conversations should be limited to these areas:

1. Recreation – green space and access to the countryside and coastal areas.
2. Workplaces, volunteering and activism - working and engaging in the climate change, environment sectors.
3. Local Environment – Community Environmental issues such as fly tipping, air pollution, recycling and reusing.

4. Climate Change Issues – The role of society in tackling climate change – supporting action at an individual and community level. A just transition to a net zero economy and climate change adaptation.
5. Biodiversity Crisis – views and priorities around biodiversity loss in Wales and abroad.
6. Food and Food Cultures – experiences of racism in food purchasing for home consumption and outside the home, food waste etc.
7. Growing your own food for community, health, dietary choice, environmental or climate change reasons. Access to community growing, gardens, access to allotments or community gardens.
8. Leadership, representation and role models on Boards and decision-making forums in the three sectors.

Further details of the scope of the themed areas and ideas and suggestions for discussion are offered in [Annexe A](#).

About the funding

This funding is offered to cover the costs of holding dialogue or discussion sessions with ethnic minority communities and community groups on what needs to be addressed in the goals and actions for Climate Change, Environment and Rural Affairs. It is aimed to support a wide number of conversations with a broad range of people from Black, Asian and Minority Ethnic communities across Wales (including Gypsies, Roma and Travellers, migrant and refugee communities). These dialogues will guide the understanding of the forms of racism experienced by Ethnic minority people in these areas of their lives and what needs to change.

The funding is available to third sector, community groups or organisations which specialise in supporting, engaging or working with ethnic minority communities or organisations working in environment, climate change and food. We aim to achieve a Wales-wide reach through the suite of successful applications. Individual applications do not have to offer national reach, they can be locality or community specific.

Dialogue events can be delivered through a variety of languages. Conversations can be around specific policy themes, for example, focused on access to public parks or focussed on a specific group and policy area for instance, Muslim women using public parks in Cardiff.

We particularly welcome applications which have a specific focus on the following groups listed below. The list is not exhaustive and applications related to other communities are welcome:

- | | |
|--|---|
| <ul style="list-style-type: none"> • Black, Asian and Minority Ethnic Women • Black, Asian and Minority Ethnic disabled people and | <ul style="list-style-type: none"> communities • Black, Asian and Minority Ethnic children and young people • Pregnant mothers |
|--|---|

- Black, Asian and Minority Ethnic older people
- Black, Asian and Minority Ethnic young people and students
- Black, Asian and Minority Ethnic LGBT+ people and communities
- Black, Asian and Minority Ethnic activist groups in Environment, Climate change or outdoor access.

The Welsh Government will provide contracts to eligible organisations and community groups of up to a maximum of £4,999 (excluding VAT). We will consider both individual and collective bids for these contracts.

Funded activity must take place in Wales, and we welcome creative ideas on engagement activity online, face to face or any other formats. Be creative.

Funding Criteria

Your individual or collaborative bids, must meet the following criteria:

	Criteria	Weighting
1	Demonstrate your experience and ability to engage and listen to Black, Asian and Minority Ethnic communities, including those with intersectional experiences against the policy themes outlined.	20%
2	You must in your application outline how you will engage with ethnic minority communities and what previous experience of community engagement you have.	30%
3	You must outline what your engagement activity will focus on. We suggest that it is aligned with our engagement questions, attached at Annex A. We will consider proposals which are broader than the engagement questions but they must demonstrate how it links to the Anti-racism Wales Action Plan and policy themes. If you choose to engage on a policy theme, your bid must specify which policy theme you will discuss and the reasons for that. For example, if you choose to discuss on food issues, you must give reasons for choosing this policy theme	30%
4	The ability to produce a short report of your dialogue session, including who you have engaged, when and where. Include plenty of quotes to illustrate your findings. Your application should demonstrate your previous experience of reporting communities' perspectives.	20%

Your bid will be assessed against these criteria on a scale of 0-100, a table of the scoring process is given in [Annexe B](#). Your proposal should include all of the criteria above, the weighting or importance of the sections in your proposal are indicated by the percentages given in the table above.

Information Required from Applicants

Please provide a proposal, **up to a maximum of two sides of A4 (any part of the bid proposal that goes beyond two sides will not be assessed)**, which outlines how the funding will be used to discuss the issues outlined with your chosen community or groups, taking account of the criteria above. The proposal should include a section that outlines the time and resources to write, capture or record the conversations to provide your project's feedback to us.

Within your two pages, please provide a breakdown of costs and associated resources you will need, for the activity detailed in your proposal and provide a proposed timeline for the activity. We will require feedback from your dialogue/discussion or conversation session or sessions to be submitted by 20 Sept 2023.

Please also specify which of the following four geographical categories your proposal's activity covers (please note, local authorities are listed to clarify regional boundaries, applications do not need to demonstrate specific activity in each local authority within that region).

- Pan-Wales
- North Wales (Conwy, Denbighshire, Flintshire, Gwynedd, Anglesey, Wrexham)
- Mid and West Wales (Carmarthenshire, Ceredigion, Pembrokeshire, Powys)
- South Wales (Blaneau Gwent, Bridgend, Caerphilly, Swansea, Cardiff, Merthyr, Monmouthshire, Neath Port Talbot, Newport, Rhondda Cynon Taf, Torfaen, Vale of Glamorgan)

Additional Support

Welsh Government will holding an online briefing session on the 2-3pm - 7th June 2023, via Teams, for interested bidders during the application process. If bidders wish join this session please email environmentalevidence@gov.wales for joining instructions.

Arrangements for submitting applications, appraisal and notification

All applications should be submitted via email to environmentalevidence@gov.wales no later than **2 pm on 21 June 2023**.

It is intended that organisations will be notified of the outcome of their application by 18 July 2023.

Applications will be appraised by an assessment panel. The panel will consist of Welsh Government officials who have experience of the third sector and project proposals in relation to equality policy and at least one independent

Black, Asian or Minority Ethnic professional experienced with work of this kind (they will not be affiliated to any application). The panel will assess and score applications against the criteria set out in this guidance note.

Applications will be organised by community as well as intersectionality and policy theme and ranked by their agreed panel score. To ensure geographical coverage, at least one application covering each geographical category (listed above) will be selected for recommendation.

Funding will be awarded to organisations subject to the terms and conditions issued by Welsh Government. Successful applicants will receive briefing prior to commencing their engagement activities.

Any queries regarding this guidance note should be raised with the Strategic Evidence Unit team by email environmentalevidence@gov.wales. We are happy to respond to queries up to a week before the closing date.

Annexe A

Areas for dialogue

Recreation – green space and access to the countryside

Green Space – parks, recreation grounds, gardens, walkways, riverside walks, cycle routes or public spaces with grass and trees or nature.

We are interested in discussion around green spaces available to the community. Do and how do they use it. Are there issues that limit their use of the space? Racial or otherwise.

Suggested questions for discussion (you do not need to use these).

- Are there green spaces near you?
- What is your view of this space?
- Is this space used by your community, or maybe only certain members of your community? For instance; young people to play football.
- What stops people using the space?
- Do the facilities provided meet the needs of all of your community?

Visiting the countryside or seaside

We are interested in discussions around going into the countryside or visiting the seaside. How do the group feel about going out into the country? If they don't go out into the country or visit the sea, what stops them?

Here we are thinking about visiting any type of countryside, forests, national parks, undertaking outdoor activities; picnics, cycling, walking, climbing hills, going in the sea.

Suggested questions for discussion (you do not need to use these).

- Would members of your community consider visiting the countryside or the seaside?
- What sort of visits do they make? Day trips to villages, or towns or to undertake activities?
- Do you find visiting the countryside (seaside) welcoming?
- If visiting the countryside (seaside) is not something people consider, what lies behind that?
- What could be done to make countryside and outdoor places more welcoming for members of your community?

Local Environment – Community Environmental issues

The Welsh Government is responsible for policies delivered by Local Authorities in respect of local environments, including air quality and noise, waste and recycling, repair, reuse and recycle policies, including repair hubs and cafes, fly tipping and other local environment issues. Within this area of work, Welsh Government works with the other three UK Governments on banning single use plastics and the reduction of plastic.

In local environment issues what are the main concerns for your community?

Suggested questions for discussion (you do not need to use these).

- What are your concerns about your local environment? Is there poor air quality? Fly tipping?
- Are there any recycling or reusing or repairing facilities, projects or shops in your community? These might be charity clothes shops or second-hand shops. Does your community use these shops? Would they use repair shops? If not, what stops them?
- Wales is third in the world for municipal recycling. Does your community feel part of this achievement? How do you feel about recycling?
- Are there any specific issues, concerns or cultural issues the Government should be considering in respect of banning single use plastics and plastic reduction in general.
- What could be done to support your community engage in reducing plastic use?

Climate Change Issues – The role of society in tackling climate change – supporting action at an individual and community level. A just transition and climate change adaptation.

We are interested in discussions around action on climate change. This could be a very wide-ranging discussion. There are issues around climate justice, here and abroad, a just transition – enabling everyone to reduce their carbon emissions without disadvantaging anyone, particularly low-income groups. To enabling people to make individual action and supporting and facilitating community action. We are interested in the inclusivity of the discussions around climate change, does this feel relevant? Are there specific cultural or societal points we should be mindful of.

Suggested questions for discussion (you do not need to use these).

- Do you feel included in the climate change discussions?
- What aspects of the debate are important to you?
- Where do you access climate change information? How could climate change information be improved?
- Where would you seek information from?

- Tackling climate change is about all of us making changes in the way we live our lives in big and small ways. Does this feel relevant to you and the way you live?
- Supporting communities to come together to take action, what is your community doing? What would help them to take action?

Biodiversity Crisis – views and priorities around biodiversity loss in Wales and abroad.

We are interested in discussions about the biodiversity crisis. This could be a wide-ranging conversation around biodiversity in Wales or the UK, the loss of biodiversity abroad, such as rainforests in Brazil or Africa. Experiences of biodiversity in everyday life, in the garden, or local park.

Suggested questions for discussion (you do not need to use these).

- Have you been watching the latest David Attenborough programme?
- Do you feel included in the discussions about biodiversity?
- What aspects of biodiversity are most important to your community?
- Does this discussion feel relevant to you or members of your community?
- Do you know of people taking action? What are they doing?
- What would like to know more about to encourage you and your community to take action?

Food and Food Cultures – experiences of racism in food purchasing inside and outside the home. Access to community growing, gardens, access to allotments or community gardens.

Food is an important aspect of personal and cultural identity. Wales has a strong but traditional food identity. To enable Wales to be more resilient to climate change, we will need to grow more of our own food. To do this successfully the food we grow needs to meet all of the people of Wales' needs.

Suggested questions for discussion (you do not need to use these).

- What do you consider when you are making food purchases?
- Do you consider where your food comes from when making food purchases?
- What are the important factors that influence your food choices? Price. Are there other things that you might consider if the price is right? Animal welfare, organic, Red Tractor, Welsh?
- Going out to eat. Any particular challenges for you or members of your community?
- Are you interested in growing your own food?

- Are there opportunities for you to grow your own food in your community? If there are limitations, what are they?
- Would members of the community consider applying for an allotment?
- Would people in your community be interested in community growing? Do they already? Or what would limit participating in this type of project?

Workplaces, volunteering and activism - working and engaging in the climate change and environment sector

Environmental and climate change issues are high on the political agenda, there are ambitious goals to try and mitigate climate change and reverse the decline in biodiversity. This is a growing and exciting place for a career, however, the sector is one of the least diverse in the UK, with only 4% of the workforce from Black and Asian ethnic minority backgrounds.

Climate change and environment action are pushed forward by activism and volunteering movements, these are important places for people to get involved in making change. Environmental activism is an important part of gaining experience to enter the environmental sector. This sector too lacks diversity and ethnic voices.

- Would you consider the environment as an area for a career?
- Environment has one of the lowest levels of diversity as an employer. How could the sector engage you or the younger members of your community to learn about and enter the sector?

Would you or members of your community consider becoming a member of an environmental charity, such as the RSPB or the wildlife trust or extinction rebellion? If not, why do you think that is?

Leadership, representation and role models on Boards and decision making forums in the three sectors.

Leadership and representation of ethnic minorities on boards and in decision making forums is very low in the environment, climate change and rural affairs sectors. What could be done to address this lack of representation and how could we support those interested in undertaking these types of roles?

Annexe B

Scoring process outline

Capability	Evidence Provided	Score	Remark
Bidder is likely to be able to meet the needs of the Authority.	Evidence is consistent, comprehensive, compelling, directly relevant to the project in all respects, highly credible and substantiated.	100	Absolute Confidence
	Evidence is sufficient, convincing and credible.	80	Confidence
Small risk that bidder will not be able to meet the needs of the Authority.	Evidence has minor gaps, or to a small extent is unconvincing, lacks credibility or irrelevant to the project.	60	Minor Concerns
Moderate risk that the bidder will not be able to meet the needs of the Authority	Evidence has moderate gaps, is unconvincing.	40	Moderate Concerns
Significant risk that the bidder will not be able to meet the needs of the Authority.	Evidence has major gaps, is unconvincing in many respects, lacks credibility, or largely irrelevant to the project.	20	Major Concerns
Bidder will not be able to meet the needs of the Authority.	No evidence or misleading evidence.	0	Not acceptable